Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)

Dyddiad y Cyfarfod:		17 Hydref 2023
Eitem ar y Rhaglen:	**5**	Manylion yr Adroddiad

Cefndir yr Adroddiad:

Cyhoeddodd Sir Ddinbych ei faes llafur cytunedig yn Haf 2022. Daeth y Cwricwlwm i Gymru yn statudol ar gyfer pob ysgol gynradd ym mis Medi 2022 a disgyblion blwyddyn 7 ac 8 fis Medi eleni. Mae ysgolion wedi cael blwyddyn i dreialu, cynllunio a gwerthuso eu harferion o ran y cwricwlwm newydd.

Pwrpas yr Adroddiad:

Caniatáu i aelodau'r CYSAG drafod sut mae ysgolion yn addasu i'r cwricwlwm newydd. Cyfle i Lywodraethwyr a'r rhai sy'n gweithio mewn ysgolion rannu eu profiadau.

Argymhellion:

- Rhannu arferion da o bosibl o fewn Rhwydwaith Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Cyngor Sir Ddinbych.